# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



## COLCOT

Y Barri

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## I ardal Colcot

**yma'r cynllun gweithredu cymdogaeth i ardal Colcot yn y Barri. Mae ystad Colcot yn wardiau Dyfan a Gibbonsdown yng Ngogledd Orllewin y Barri ac mae ei ffin mwyaf gogleddol ar lain werdd y dref.**

Mae Port Road yn rhedeg trwy'r ward a dyma'r prif lwybr i Gaerdydd, ac i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn y Rhws. Mae'n elwa o ganolfan chwaraeon a chaeau chwarae Buttrills ac mae Ysbyty'r Barri ar Colcot Road. Mae hefyd yn cynnwys Ysgol Gynradd Colcot, tafarn y Colcot Arms, Eglwys Fethodistaidd Dewi Sant, Eglwys Deuluol Coastlands, siop bysgod a sglodion/ tecawê Tsieineaidd, Canolfan Gelf y Barri a Mynwent Merthyr Dyfan.

# Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017 – Mae 1,722 o bobl yn byw yn ardal Colcot
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae 366 eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn yr ardal. Mae 79 o fflatiau a 287 o dai, 1 eiddo lesddaliadol a 22 garej. Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd rhwng oddeutu 1951.


Colcot
Merthyr
PW
PW
PW
Playing Field
White Farm
Colt Brook
Earthworks





# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?

# Beth yw ei nodau?





Mae'r Cynllun Cymdogaeth hwn yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystad. Mae'r Cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 62% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n uwch na chyfartaledd y Fro o 58%.<br>Mae cymdogion swnllyd yn achosi pryder i lawer gyda 40% o'r tenantiaid ar yr ystad yn nodi bod hon fel problem, sy'n uwch na chyfartaledd y Fro o 35%.<br>Hefyd mae defnyddio cyffuriau yn bryder i 33% o denantiaid o'i gymharu â chyfartaledd y Fro o 26%.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, nododd 93% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn byw yn yr ardal, sy'n sylweddol uwch nag ardaloedd eraill y Fro. |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 85% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlent bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 66% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn sy'n unol â chyfartaledd y Fro o 65%.<br>Cadarnhaodd 57% o denantiaid eu bod yn adnabod y Tîm Cymdogaeth sy'n gyfrifol am yr ardal. |
| Galw am gartrefi | Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da i siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws da, sy'n golygu y gall tenantiaid fynd i ganol tref y Barri neu ymweld ag archfarchnadoedd yn hawdd.<br>Mae Ysgol Gynradd Colcot wedi'i lleoli yn y gymdogaeth ac mae mewn pellter cerdded i'r mwyafrif o blant sy'n byw yn yr ardal. Mae'r ysgol yn chwarae rhan hanfodol yn y gymuned ac yn awyddus i gefnogi projectau lleol fel Gardd Gymunedol Margaret Avenue.<br>Mae hefyd 3 Ysgol Uwchradd yn yr ardal ynghyd â Choleg Caerdydd a Fro yn darparu addysg bellach yn yr ardal.<br>Hefyd, mae ysbyty y Barri wedi'i leoli yn y gymuned ac yn ddiweddar mae wedi gweithio gyda rhai o'n gwirfoddolwyr Bancio Amser a Beautiful Barry i ddod â gofod yr ardd yn ôl i ddefnydd.<br>Mynegodd breswylwyr bryder yn dilyn cau'r swyddfa bost leol yn ddiweddar a ddefnyddiwyd gan nifer sylweddol o bobl, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw yn yr ardal. Mae hyn yn golygu y byddai angen i bobl deithio y tu allan i'r gymdogaeth i gael mynediad at wasanaeth swyddfa bost.<br>"Ardal dawel, siopau lleol ac mae fy fflat yn braf" |
| Mynediad at wasanaethau | Mae galw da am gartrefi yn yr ardal hon gyda 71 ymgeisydd ar gyfartaledd yn cynnig am eiddo pan fyddant yn cael eu hysbysebu ar gyfer eu hailosod.<br>"Cymdogaeth gyfeillgar" |
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 82% o denantiaid yr ystad fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian. Mae 38% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%, fodd bynnag mae cyfran uchel y tenantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i helpu i dalu eu costau tai. |
| Atgyweirio | Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod. Roedd 75% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 75% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau uwch o gyflogaeth o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn Y Barri. |

# Gwybodaeth allweddol i’r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o’i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd. Mae 53% o denantiaid â pheth dealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt. |
| Trosiant eiddo | Daeth 14 eiddo yn wag y llynedd, sef 4% o’r stoc dai yn yr ardal |
| Tenantiaid gweithgar | Mae Bwrdd Preswylwyr Colcot sefydledig sy’n cynrychioli buddiannau pobl sy’n byw yn yr ardal.<br>Mae’r bwrdd preswylwyr wedi ymrwymo i nifer o weithgareddau yn yr ardal i gynyddu ymgysylltiad cymunedol gan gynnwys rhedeg clwb ieuenctid a chynnal digwyddiadau i bobl oedrannus yn yr ardal.<br>Mae’r Tîm Buddsoddi Cymunedol mewn partneriaeth â phreswylwyr lleol ac Ysgol Colcot wedi chwarae rhan weithredol yn natblygiad Gardd Gymunedol Margaret Avenue. |
| Trosedd a niwsans | Y prif droseddau yr adroddir amdanynt i’r Heddlu (fesul 100 o bobl) yw YGG (2.7), trosedd dreisgar (1.5), difrod troseddol (1.2) a byrgleriaeth (0.6) ac maent bron i gyd y uwch na chyfartaledd y Fro. |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 12% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd y Fro.<br>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o’i chymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod mwy o bobl na’r arferol gyda phroblemau symudedd o un math neu’i gilydd, a’u bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi, ac efallai eu bod yn teimlo’n eithaf ynysig |
| Pobl ifanc | Mae cyfran uwch o bobl iau yn byw yn yr ardal o’i gymharu â chyfartaledd y Fro a Chymru gyda 22% o’r boblogaeth rhwng 0 a 15 oed.<br>Mae nifer o weithgareddau ieuenctid ar gael yn yr ardal leol gan gynnwys clybiau ieuenctid, grwpiau cymdeithasol, campfa focsio a’r clwb rygbi. |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol ymhlith y chwartel isaf o’u cymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na’r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 (85), 3 (97) a 4 (455).<br>Hefyd ceir cyfraddau absenoldeb disgyblion uwch yn yr ardal na chyfartaledd y Fro mewn ysgolion cynradd(7.0) ac uwchradd(10.4)) |
| Mannau agored | Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai’r gymuned eu defnyddio. |
| Graddfeydd yr ystad | Graddiad cyffredinol yr ystad yw 3. Ymhlith y materion sy’n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, y mae’r Tîm Cymdogaeth wedi bod yn gweithio i’w datrys, sy’n cynnwys problemau gyda sbwriel.<br>Bu problemau hefyd gyda chyflwr gerddi. Mater arall y mae’r Tîm wedi bod yn gweithio arno mewn partneriaeth â’r DVLA / PCSO’s lleol yw ymdrin â nifer y cerbydau sydd naill ai wedi’u parcio ar yr ystad neu sy’n cael eu defnyddio ar yr ystad ond heb eu trethu na’u hyswirio. |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystâd

Whilst the indicators show us useful trends and point us in the right direction we need more local knowledge to identify some of the specific issues we need to address.

To gather this information we have conducted a neighbourhood audit asking the people who live and work here to identify what they think the issues were.

| **Barn/sylwadau preswylwyr** | |
|---|---|
| Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant cyson o eiddo. | Mae amlder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo. Ardal y garejys - ymddangosiad gwael, llawer o leoedd gwag - allwn ni wneud rhywbeth yn wahanol? |
| Mae ymddangosiad yr ardal yn dda gyda llawer o fannau cymunedol. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. Hefyd mae llawer o fannau parcio arwyneb solet nad ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial ac sy'n gallu denu pobl ifanc a thipio anghyfreithlon. Mae potensial i fynd i'r afael â rhai o'r problemau gyda pharcio yn yr ardal a dylid cynnwys hyn yn y cynlluniau cymdogaeth. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda, gyda rhai gwelliannau sylweddol yn ymddangosiad yr ystad yn dilyn y gwaith allanol a gwblhawyd yn ddiweddar. | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn. | Ceir rhai problemau gyda pharcio a ffyrdd cul, gydag ond ychydig iawn o barcio oddi ar y ffordd |
| Nid yw pob tenant yn teimlo yr ymgynghorwyd â nhw ac nid ydynt yn teimlo y gallant fynychu'r bwrdd preswylwyr felly maent yn colli'r cyfle i allu siarad â'r Tîm Cymdogaeth. | |

### Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth, gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain
- Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol
- Sicrhau bod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu gwneud mewn modd amserol i safon uchel

### Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Gwella diogelwch cymunedol
- Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Gwella parcio yn yr ardal

## Camau gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Materion amgylcheddol | | |
| Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystadau i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensio ayb. | Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol. I ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon. | O fewn 12 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid preifat i wella gerddi tai nad ydynt yn rhai awdurdod lleol, sy'n cael effaith negyddol. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Adeiladu cymunedau cryfach. | O fewn 12 mis |
| Targedu gerddi sydd wedi gordyfu mewn cartrefi tenantiaid, gan gynnwys gerddi cymunedol. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Datblygu rhaglen wella ar gyfer y safleoedd garejys i ddod â'r lle yn ôl i ddefnydd. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella trefniadau parcio lleol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda phriffyrdd i adolygu materion cyfredol gyda materion parcio a thraffig yn yr ardal, gan ganolbwyntio ar ardaloedd fel Ysgol Colcot a Winston Road.<br>Mae hyn i gynnwys adolygu tyllau yn y ffordd a nodi'r cynllun i'r rhain gael eu cywiro. | Gwella diogelwch cymunedol. Gwella cyfleusterau parcio.<br>Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. | O fewn 3 blynedd |
| Cwblhau gwaith man gwyrdd o fewn gofod rhandir Margaret Avenue i sefydlu gardd gymunedol fel hyb i'r ardal.<br>Bydd yr Ardd Gymunedol yn cael ei rheoli'n rhannol gan Ysgol Colcot. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Cynyddu'r wyliadwriaeth ffisegol mewn mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) gan weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Bro Ddiogelach. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid, Bwrdd Preswylwyr Colcot a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Ieuenctid, project gwyliau ysgol ayb. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 12 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel “cymdogion da” i gefnogi pobl sy’n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i’r Tîm Cymdogaeth neu PCSO’s fel y bo’n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| Gweithio gyda thenantiaid a phreswylwyr lleol i ddatblygu grŵp diogelwch cymunedol i archwilio ymhellach sut y gellir gwella hyn ar lefel leol. | Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ymgysylltiad tenantiaid. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Cefnogi’r bwrdd preswylwyr i ddatblygu cynaliadwyedd tymor hir darpariaeth ieuenctid yn yr ardal | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 3 blynedd |
| **Active communities** | | |
| Adolygu’r cyfleusterau a gweithgareddau cyfredol i bobl ifanc. | Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella iechyd a llesiant. Gwella diogelwch cymunedol | O fewn 12 mis |
| Hyrwyddo gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant yn yr ardal, gan gynnwys dosbarthu taflenni i eiddo, cynnal sesiynau blasu a phrojectau wedi'u targedu i gynyddu ymgysylltiad. | Darparu cefnogaeth cyflogaeth a hyfforddiant. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. Gwella iechyd a llesiant. Darparu gweithgareddau cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus | O fewn 3 blynedd |
| Cynnal nifer o sesiynau cyngor ariannol a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol. | Darparu cyngor ariannol a gwasanaethau cymorth i denantiaethau. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy | O fewn 6 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Datblygu dewislen o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn yr ardal i ddod â'r gymuned ynghyd ac i wella ymgysylltiad â'r Tîm Cymdogaeth. | Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.<br>Gwella cyfathrebu rhwng tenantiaid a'r Tîm Cymdogaeth. | O fewn 12 mis |
| **Active communities** | | |
| Adolygu demograffeg aelwydydd ar gyfer yr ardal i nodi tenantiaid agored i niwed ac adolygu sut y gellir darparu gwasanaethau cymorth priodol, gan gynnwys datblygu adnoddau cymunedol neu ddulliau cyd-gynhyrchu. | Gwella diogelwch cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.<br>Gwella llesiant tenantiaid.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol.<br>Cefnogi tenantiaid agored i niwed. | O fewn 12 mis |
| Adolygu gwasanaethau cymunedol yn yr ardal ar gyfer pobl hŷn a gweithio gyda'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu ystod o brojectau sy'n addas i bobl hŷn. | Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Cefnogi tenantiaid agored i niwed. | O fewn 12 mis |
| Creu cardiau cyswllt Tîm Cymdogaeth, gan gynnwys lluniau a gwybodaeth gyswllt i swyddogion. Yna bydd y rhain yn cael eu danfon i holl eiddo Cartrefi'r Fro yn yr ardal.<br>Bydd y rhain hefyd yn cynnwys manylion Teithiau Cerdded Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltiad â'r gymuned.<br>Gwella cysylltiadau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 6 mis |

# Sut i gysylltu â ni:

## Dros y ffôn:

01446 700111

## Drwy e-bost:

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes Cartrefi'r Fro

## Yn ysgrifenedig:

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

## Drwy'r we:

www.bromorgannwg.gov.uk

## Yn bersonol:

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG